**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Mawrth 2022

Annwyl Jayne

**Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am y gwaith craffu a wnaed ganddo ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 4 Mawrth 2022.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad yn ceisio rhagor o wybodaeth cyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol. Rwyf wedi nodi fy ymateb i'r argymhelliad hwn isod at ddefnydd y Pwyllgor.

Yn argymhelliad 23, gofynnodd y Pwyllgor imi nodi sut y byddai Llywodraeth Cymru yn rheoli unrhyw newidiadau i rôl a swyddogaeth Estyn mewn perthynas â darpariaethau'r Bil.

Mae rolau a swyddogaethau Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) wedi'u gosod mewn deddfwriaeth sylfaenol, fel y nodir isod. Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fwriad i newid y rolau na'r swyddogaethau hyn ymhellach. Pe bai angen gwneud hynny yn y dyfodol, byddai disgwyl i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a dilyn y drefn briodol gan gynnwys gwneud y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol.

Mae Deddf Addysg 2005 yn gwneud darpariaeth ar gyfer Ei Mawrhydi i benodi unigolyn i swydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (“y Prif Arolygydd”), drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gyllido'r Prif Arolygydd yn unol ag adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

O dan Ddeddf Addysg 2005 mae dyletswydd ar y Prif Arolygydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Weinidogion Cymru am ansawdd addysg mewn ysgolion yng Nghymru. Gall

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hefyd gynnig cyngor ar faterion sy'n gysylltiedig ag ysgolion, neu ag ysgol benodol, yng Nghymru. Yn yr un modd, o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (“Deddf 2000”), gall y Prif Arolygydd gynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n gysylltiedig ag ansawdd addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr dros 16 oed a gyllidir ganddynt.

Mae'r Bil, sy'n diwygio Deddf 2000 a Deddf Addysg 2005, yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn ddarparu'r cyllid i'r Prif Arolygydd y mae'n ystyried ei fod yn briodol er mwyn i'r Prif Arolygydd arfer ei swyddogaethau, cyn belled ag y bo'r swyddogaethau yn ymwneud ag addysg neu hyfforddiant sy'n cael ei gyllido neu ei sicrhau fel arall gan y Comisiwn. Drwy wneud hyn, sicrheir bod modd i’r Comisiwn gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â sicrhau bod addysg a hyfforddiant ôl-16 o ansawdd uchel, yn ogystal â bodloni ei ddyletswydd statudol gyffredinol o hybu gwelliant parhaus yn ansawdd addysg drydyddol yng Nghymru.

Byddaf yn ymateb i weddill yr argymhellion yn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol ac mewn llythyr arall yr wyf yn bwriadu ei anfon at y Pwyllgor ar ôl y ddadl honno.

Gobeithio bod y llythyr hwn o ddefnydd o ran darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y materion hyn. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd yn ei flaen drwy broses y Senedd.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language